# Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18

# Cyngor Sir Powys

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2018
Cyfeirnod y ddogfen: 817A2018-19



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Katherine Simmons a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 | 4 |
| Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus | 4 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 5 |
| Argymhelliad Statudol | 5 |
| Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18 | 7 |
| Atodiadau | 20 |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad | 20 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 21 |
| Atodiad 3 – Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 2017-18 | 28 |

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth gronedig o waith archwilio ac arolygu, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill a oedd ar gael, gan gynnwys dulliau Cyngor Sir Powys (y Cyngor) ei hun o adolygu a gwerthuso. Ar gyfer 2017-18, gwnaethom ni waith asesu gwelliant ym mhob cyngor. Gwnaethom ni waith ym mhob cyngor yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd, a chynnal adolygiad ar thema safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, ac adolygiad o'r trefniadau goruchwylio a chraffu. Mewn rhai cynghorau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2017-18.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 2.

## Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Yn dilyn adroddiad beirniadol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ymwneud â'i  harolygiad o Wasanaethau Plant, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet rybudd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cynllun gwella a sefydlu Bwrdd Gwella a Sicrwydd. Mae gan y Bwrdd Gwella gadeirydd annibynnol ac fe'i cefnogir gan ymgynghorwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Tasg y Bwrdd yw goruchwylio cynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei gynllun gwella.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd AGC ei hadroddiad ar Wasanaethau Oedolion, ac o ganlyniad i hyn, ehangodd y Cyngor ei gynllun gwella i gynnwys y maes hwn ac yng nghylch gwaith y Byrddau Gwella a Sicrwydd.

5 Yn ei lythyr archwilio blynyddol a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2018 (Atodiad 3), nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd o'r farn fod gan y Cyngor drefniadau priodol digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'r sefyllfa ariannol bresennol ac yn y dyfodol yn cyflwyno her sylweddol. Cyflwynodd argymhelliad statudol i ymdrin â'r maes hwn. (Arddangosyn 1 isod).

6 O ganlyniad i hyn, yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009).

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol argymhelliad statudol a gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 2) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

## Argymhelliad Statudol

9 Mae'r tabl isod yn cynnwys yr argymhelliad statudol a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

## Arddangosyn 1: argymhelliad statudol

| Argymhelliad Statudol | |
|---|---|
| A1 | Wrth bennu cyllideb gytbwys, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl gynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol.<br>Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i ddiweddaru ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd wrth fynd ymlaen, a llunio a gweithredu camau i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac a adroddwyd i mi o ran ei drefniadau corfforaethol ac ariannol. |

## Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

### Arddangosyn 2: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Awst 2018 | **Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau**<br>I ddeall 'safbwynt defnyddwyr gwasanaethau' ym mhob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor Sir Powys, gwnaethom ni adolygu'r gwasanaeth Tai. Yn arbennig, a oedd y Cyngor yn defnyddio profiad a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau i lywio cynllun a chyflawniad gwasanaethau ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru. | **Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer llawer o elfennau ac mae'r rhan fwyaf o denantiaid y Cyngor yn fodlon ar ansawdd y gwasanaeth a'u cartrefi, ond mae angen cyflymu ei ddull o sicrhau bod cartrefi tenantiaid yn gynnes.**<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod y Cyngor yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer llawer o elfennau erbyn 2020, ond mae angen cyflymu ei ddull o sicrhau bod cartrefi tenantiaid yn gynnes;<br>• mae ymgysylltu â thenantiaid wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ond mae angen ei ddatblygu a'i gryfhau i gasglu mwy o safbwyntiau; ac<br>• mae'r rhan fwyaf o denantiaid y Cyngor yn fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth a'u cartrefi. | C1 Dylai'r Cyngor gryfhau fel mater o frys gyflawniad SATC yn y dyfodol trwy gyflymu ei broses o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu tenantiaid sy'n byw mewn cartrefi oer.<br>C2 Dylai'r Cyngor weithio gyda thenantiaid i gryfhau ei ddull o gynorthwyo pobl sy'n cael problemau anweddiad a lleithder.<br>C3 Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o ymgysylltu ac archwilio ffyrdd mwy arloesol o gyrraedd y bobl niferus sy'n anodd eu cyrraedd o ganlyniad i heriau daearyddol byw ym Mhowys. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2018 | **'Craffu: Addas ar gyfer y Dyfodol?' Adolygiad**<br>Adolygiad o ba un a yw swyddogaethau trosolwg a chraffu'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol. | Mae'r Cyngor wedi llusgo'i draed wrth ddatblygu ei drefniadau craffu ac mae meysydd sylfaenol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i graffu weithredu'n effeithiol a dylanwadu ar heriau'r dyfodol.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• nid yw fframwaith llywodraethu y Cyngor yn helpu i greu amgylchedd cefnogol er mwyn i graffu weithredu'n effeithiol ac arwain at effaith;<br>• mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w swyddogaeth graffu fod yn well. Mae lle i wella sut y caiff gwaith craffu ei gynllunio, sut y cynhelir cyfarfodydd craffu a sut y caiff blaenraglenni gwaith eu llunio; ac<br>• nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith ei waith trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei effeithiolrwydd cyffredinol. | C1 Bod yn benodol yn yr adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgor trosolwg a chraffu ynghylch pam y mae'r pwyllgor yn cael yr wybodaeth a sut y mae'n berthnasol i swyddogaeth y pwyllgor craffu.<br>C2 Darparu mwy o hyfforddiant yn arbennig i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth yn fwy effeithiol.<br>C3 Trefnu rhagor o hyfforddiant i aelodau pwyllgorau craffu ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i gynnwys ystyriaethau'r Ddeddf ym mhrosesau gwneud penderfyniadau y Cyngor<br>C4 Cryfhau trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill o ran trosolwg a chraffu.<br>C5 Egluro'r trefniadau ar gyfer adrodd barn y pwyllgorau trosolwg a chraffu i'r Cabinet a'r Cabinet i ymateb i argymhellion a wnaed.<br>C6 Rhoi trefniadau ar waith i asesu effeithiolrwydd ac effaith gwaith trosolwg a chraffu. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2018 | **Adolygiad dilynol o drefniadau chwythu'r chwiban a pholisi cwyno Cyngor Sir Powys** | • Mae polisi chwythu'r chwiban y Cyngor wedi gwella ers ein hadolygiad diwethaf ac mae'n cydymffurfio ag arfer da a argymhellir<br>• Mae'r Cyngor yn cyfeirio staff at ei bolisi chwythu'r chwiban ond efallai hoffai'r Cyngor ystyried trefniadau hyfforddi mwy ffurfiol<br>• Diddymodd y Cyngor ei bolisi Tegwch ac Urddas yn y Gweithle ym mis Hydref 2015 ond nid yw'r Polisi Cwyno yn eglur ynghylch sut i gyflwyno cwyn sy'n ymwneud â bwlio neu aflonyddu. | Dim. |
| Mawrth 2018 | **Arsylwadau y Prosiect Comisiynu Priffyrdd Trafnidiaeth a Sbwriel (HTR)** | • Yn ein swyddogaeth arsylwi roedd gennym bryderon ynghylch agweddau ar y prosiect ond cawsom sicrwydd yn y pen draw o'r lefel o her a ddangosir; a<br>• Gallai rhai agweddau ar lywodraethu'r prosiect fod wedi bod yn fwy cadarn. | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhelliad stadudol |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2017 | **Llythyr archwilio blynyddol 2016-17** Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag adrodd ariannol ond nid oedd ganddo drefniadau priodol digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 22 Tachwedd 2017. Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017-18 neu systemau ariannol allweddol. Nid oedd gan y Cyngor drefniadau priodol digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'r sefyllfa ariannol bresennol a'r sefyllfa yn y dyfodol yn cyflwyno her sylweddol. | Wrth bennu cyllideb gytbwys, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl gynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol. Mae'n rhaid hefyd i'r Cyngor weithredu ar unwaith i ddiweddaru ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd wrth symud ymlaen, a llunio a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac a adroddwyd i mi o ran ei drefniadau corfforaethol ac ariannol. |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2017 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol** Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2017 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad y Cyngor. | Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol sy'n dilyn honno y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y bydd Gweinidogion Cymru yn eu pennu drwy orchymyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei asesiad ar 20 Tachwedd 2017. | Dim. |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant | Mae gweithredu argymhellion yr adolygiad allanol wedi gwaethygu methiannau yng ngwasanaethau plant, ac wedi ansefydlogi'r gweithlu i raddau sylweddol ac, o ganlyniad, wedi rhoi plant mewn perygl o niwed.<br>Nid yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethau'n dda gan y trefniadau cyfredol ar gyfer cael gafael ar wasanaethau cymorth ym Mhowys. Roedd diffyg cynllunio ar gyfer asesu, gofal a chymorth, ynghyd â dull anghyson o weithio yn unol â chanllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant a rheoli proses y fframwaith camfanteisio'n rhywiol ac asesu risg yn rhoi plant mewn perygl o niwed. Yn ogystal, nid oedd prosesau amddiffyn plant yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol, gydag oediadau o ran yr ymchwiliadau a'r asesiadau a oedd yn cael eu cynnal ac o ran cwblhau ymweliadau statudol.<br>Mae tystiolaeth o gyfleoedd coll i ddiogelu plant, serch ceisiadau am gymorth. Nid yw risgiau yn cael eu hasesu'n briodol nac yn ddigon cadarn ac nid oes unrhyw system effeithiol i nodi a rheoli risgiau.<br>Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plant wedi'u gosod gan y tîm arweinyddiaeth dros dro, ynghyd ag aelodau o'r tîm rheoli gweithredol. Fodd bynnag, mae angen cryn dipyn o gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i wireddu'r weledigaeth hon. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'i chynnwys y tu allan i'r gwasanaethau plant a, chan ystyried ei dibyniaeth ar gefnogaeth lawn y cyngor, mae hyn yn destun pryder. | **Blaenoriaeth ar unwaith (o fewn un mis):**<br>**Rheoli achosion**<br>1. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol a'u gwneud mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd.<br>**Staffio**<br>2. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch-ymarferwyr er mwyn sicrhau y gellir darparu trosolwg rheoli a phrofi penderfyniadau effeithiol a chyson, ynghyd â darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer staff rheng flaen.<br>3. Dylai uwch-reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth staff rheng flaen. Rhaid rhoi mecanwaith sicrhau ar waith i wneud yn siŵr y cydymffurfir â'r disgwyliadau a sicrhau ansawdd penderfyniadau, cadw cofnodion ac adrodd.<br>4. Mae angen monitro llwythi achos er mwyn sicrhau bod digon o allu gan weithwyr i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd<br>**Arweinyddiaeth**<br>5. Rhaid i'r prif weithredwr ddarparu cymorth corfforaethol ar unwaith i'r gwasanaethau plant er mwyn sicrhau bod gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant<br>(Cont.) | Mae problemau perfformio difrifol o ran y gwasanaethau rheng flaen, ond mae'r rhain yn codi oherwydd y rheolaeth ansefydlog, arweiniad gwael a dryslyd, a llywodraethu gwan. Heb gymorth effeithiol a gallu i wneud y gwaith, nid oes disgwyl i'r staff rheng flaen gyflawni'r gwaith cymhleth sydd ei angen mewn gwasanaethau cymdeithasol plant. Nododd yr arolygwyr ymrwymiad y staff, sydd wedi dangos gwydnwch a phroffesiynoldeb wrth ymdopi â newidiadau sylweddol, a llai o wasanaethau cymorth a gallu arweinyddol. Rydym wedi gweld ymrwymiad go iawn i amddiffyn ac ymateb i ddiogelu plant dan amgylchiadau anodd iawn. Mae'r staff wedi cefnogi ei gilydd trwy adegau heriol ac anodd ac wedi dangos i ni eu bod yn awyddus iawn i symud ymlaen. | 6. Rhaid i arweinydd y cyngor a'r aelod portffolio ddarparu cymorth gwleidyddol cryf ar gyfer y gwasanaethau plant a chymryd y camau angenrheidiol i roi gwaith craffu gwybodus ac effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol a'u bod yn gynaliadwy.<br>**Sicrwydd**<br>7. Rhaid rhoi blaenoriaeth i weithredu mecanwaith sicrhau er mwyn gwneud yn siŵr y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth, y canllawiau statudol a'r protocolau o ran plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn perygl.<br>**Blaenoriaeth tymor canolig (o fewn pedwar mis):**<br>**Rheoli achosion**<br>8. Rhaid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da, gyda phwyslais eglur ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau, yr amserlenni a'r cyfrifoldebau dros weithrediadau yn eglur.<br>9. Rhaid gwella ansawdd a chysondeb y cofnodion a gedwir a'u hamseroldeb. Rhaid i'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod y cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol, ac yn cael eu storio'n drefnus. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant (Cont.) | | 10. Rhaid i'r awdurdod lleol egluro rôl a diben Llinell Uniongyrchol Powys o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyffredinol a rhaid iddo sicrhau bod gan staff a phartneriaid ganllawiau clir i gefnogi penderfyniadau. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn fedrus ac yn cael eu cefnogi i gyflawni'r rôl hon. Mae angen protocol clir rhwng Llinell Uniongyrchol Powys a'r tîm dyletswydd argyfwng er mwyn sicrhau na chaiff achosion eu colli rhwng gwasanaethau.<br>11. Rhaid i'r awdurdod lleol roi model asesu effeithiol ar waith i gefnogi ei ymyriadau â theuluoedd, a rhaid i hwn fod yn ddealladwy i bob aelod o staff a phob partner, ac yn seiliedig ar hyfforddiant a datblygiad cadarn.<br>12. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaeth maethu yn darparu cymorth, hyfforddiant ac arweiniad cyson i ofalwyr maeth er mwyn gwella ansawdd ac argaeledd lleoliadau.<br>13. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan bob cynllun gofal a chymorth bwyslais clir ar ganlyniadau i blant, sy'n cynnwys llais y plentyn. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant<br>(Cont.) | | **Staffio**<br>14. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob cyflogai yn deall y gofynion deddfwriaethol a statudol o ran diogelu plant a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.<br>15. Dylid datblygu strategaeth gadarn i'r gweithlu ar unwaith, a fydd yn cynnwys cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a staff uwch. Mae penodi pobl yn barhaol i swyddi allweddol yn flaenoriaeth uchel er mwyn rhoi gwydnwch a sefydlogrwydd i'r gwasanaeth.<br>**Gwaith rhyngasiantaeth/ partneriaeth**<br>16. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddi amlasiantaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod trothwyon asesiadau ar gyfer gwasanaethau plant statudol yn ddealladwy i'r staff a'r partneriaid ac yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol amlasiantaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn ag amddiffyn plant.<br>17. Mae angen arweiniad strategol clir, a gefnogir gan brotocolau gweithredol, er mwyn galluogi partneriaid i gael dealltwriaeth glir o ddiben, strwythur a phroses benderfynu'r gwasanaethau plant. Arweinyddiaeth |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant (Cont.) | | 18. Dylid rhoi ystyriaeth gynnar i effaith y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad a gomisiynwyd ac a ddylid ailedrych ar benderfyniadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad.<br>19. Mae angen i aelodau etholedig fod yn glir ynghylch y weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau plant a chydnabod ei fod yn faes risg uchel i'r cyngor. I gefnogi hyn, mae angen i aelodau gael eglurder ynghylch cyfeiriad y gwasanaethau a'r risgiau penodol sy'n gynhenid mewn gwasanaethau plant, a hyfforddiant i ddeall hyn.<br>20. Rhaid i'r prif weithredwr wneud trefniadau i sicrhau bod gan yr holl aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol a'u bod yn gallu cyflawni'r rhain.<br>21. Mae angen i'r awdurdod lleol wneud gwaith pellach o ran gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel bod dealltwriaeth ar lefel gorfforaethol o'r ffordd y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu darparu. Sicrwydd<br>22. Mae angen ymwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys craffu ar y galw am y gwasanaeth ac archwilio ansawdd yr arferion yn rheolaidd, fel bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant<br>(Cont.) | | 23. Rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu systemau a strwythurau ar lefel gorfforaethol er mwyn monitro a gwerthuso'r cynnydd o fewn y gwasanaethau plant yn effeithiol.<br>24. Rhaid sefydlu system sicrhau ansawdd i sicrhau nad yw teuluoedd a gaiff eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu hanghofio nac yn profi oediadau ac i sicrhau bod cynlluniau wedi'u targedu ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u gwirio gan reolwyr.<br>25. Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r arolygiaeth o ran ymateb i gwynion er mwyn gwella'r gwaith adrodd a dadansoddi a sicrhau bod mecanwaith i gipio'r gwersi a ddysgwyd.<br>**Blaenoriaeth fwy hirdymor (o fewn 12 mis):**<br>**Rheoli achosion**<br>26. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chynnig gweithredol y Gymraeg. Gwaith amlasiantaeth/partner<br>27. Dylid sefydlu protocol amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant i gefnogi penderfyniadau ar yr angen am asesiadau mewn gwasanaethau plant statudol. Mae angen i staff a phartneriaid ddeall hwn a rhaid iddo gael ei gymhwyso'n gyson. Mae angen systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddi amlasiantaeth i gefnogi hyn. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC Gorffennaf 2017 | Arolygiad o Wasanaethau Plant<br>(Cont.) | | 28. Rhaid i'r awdurdod lleol a'r partneriaid weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys barn plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hwn fel sylfaen i lywio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn alinio'n effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol, a gwasanaethau statudol.<br>**Arweinyddiaeth**<br>29. Bydd angen i newidiadau i'r strwythur a'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol gynnwys ymgynghoriad â phob rhanddeiliad o ran eu siâp a'u datblygiad. Mae angen i'r newid fod yn gynyddol a rhaid gweithredu'r newidiadau ar gyflymder a fydd yn sicrhau ymglymiad llawn staff a phobl ifanc a sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi mewn perygl. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| AGC<br>Mai 2018 | Arolygiad o Wasanaethau Oedolion | Roedd rhai pobl yn derbyn gofal a chymorth da ond nid oedd hyn yn gyson. Cafodd rhai pobl oedi sylweddol wrth gael eu hasesu am ofal a chymorth ac wrth dderbyn gwasanaeth. Mae angen gwelliannau sylweddol.<br>Roedd cydweithredu da rhwng y staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen ac amrediad o'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol Cafodd atgyfeiriadau diogelu brys eu trin yn gyflym ac yn effeithiol, ond roedd ôl-groniad annerbyniol o waith diogelu ar y camau sgrinio ac ymholiad.<br>Nododd yr arolygwyr ymrwymiad y staff, sydd wedi dangos proffesiynoldeb wrth ymdopi â nifer o newidiadau ac adnoddau prin. | Fel blaenoriaeth:<br>• Mae'n rhaid i uwch-arweinwyr barhau i ddarparu cymorth gwleidyddol a chorfforaethol cryf ar gyfer gwasanaethau oedolion i sicrhau gwelliannau i'r gwasanaeth;<br>• sicrhau bod yr holl ymholiadau diogelu yn cael eu gwneud o fewn amserlenni statudol;<br>• sicrhau goruchwyliaeth glir gan reolwyr a dealltwriaeth o'r galw, capasiti a blaenoriaethu llif gwaith o fewn y system diogelu oedolion;<br>• cryfhau'r cynllun gwella gwasanaethau oedolion presennol; a<br>• llunio strategaeth gweithlu gadarn er mwyn cynnwys cynlluniau tymor byr, tymor canolig a hirdymor ar gyfer recriwtio a chadw gweithlu gwasanaethau oedolion. |

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd / David Powell - Prif Weithredwr
Dros Dro Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir Llandrindod Powys
LD1 5LG

**Cyfeirnod:** AJB356
**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Ionawr 2018

Annwyl David a'r Cynghorydd Harris

## Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Powys 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag adrodd ariannol ond nid oedd ganddo drefniadau priodol digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- bod yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2017, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a Chronfa Bensiwn Powys. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 22 Medi 2017, a bydd adroddiad manylach yn dilyn maes o law.

### Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 22 Tachwedd 2017

Yn fy adroddiad dyddiedig 28 Medi 2017, amlygais na allwn i bryd hynny gwblhau fy archwiliad yn ffurfiol hyd nes i mi orffen ystyried y materion y tynodd etholwr yr awdurdod lleol fy sylw atynt. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys erbyn hyn a chyflwynais fy nhystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 22 Tachwedd 2017.

### Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017-18 neu systemau ariannol allweddol

Nid yw fy ngwaith parhaus o ardystio ceisiadau a ffurflenni grant, wedi nodi unrhyw faterion sylweddol hyd yn hyn o ran y cyfrifon na systemau ariannol allweddol y Cyngor. Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yng ngwanwyn 2018 pan fydd rhaglen ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Disgwylir ar hyn o bryd y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

### Nid oedd gan y Cyngor drefniadau priodol digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'r sefyllfa ariannol bresennol a'r sefyllfa yn y dyfodol yn cyflwyno her sylweddol

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, fe wnes i ddwyn sylw at nifer o feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau wedi amlygu'i hun hyd yma neu feysydd y gellid eu gwella.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi mynegi'n eglur uchelgais strategol i gyflawni newid gweddnewidiol, ond mae ei allu i ysgogi cyflymdra'r newid sydd ei angen wedi'i lesteirio gan ddiffyg capasiti ac arbenigedd. Mae datblygu cynllun gweithlu strategol wedi cymryd amser, ac mae adnoddau staff wedi crebachu o ganlyniad i ymateb y Cyngor i gyni. Mae prosesau newydd i gynllunio busnes a rheoli rhaglenni yn gofyn am sgiliau a galluoedd arbenigol sy'n brin, ac mae'r Cyngor yn ei chael yn anodd recriwtio i lenwi rhai o'r swyddi allweddol. Mae cyfran sylweddol o swyddi rheoli allweddol wedi'u llenwi drwy drefniadau dros dro erbyn hyn.

Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad o ystyried uchelgais a chyflymdra ei raglen newid gwasanaethau, bod lle sylweddol i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau llywodraethu. Yn ôl canfyddiadau ein hasesiad corfforaethol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016, nid oedd trefniadau craffu a gwneud penderfyniadau y Cyngor yn strategol nac yn gadarn. Mae penderfyniadau allweddol ynghylch newidiadau elfennol i'r gwasanaeth wedi'u hysgogi'n bennaf gan yr angen i gyflawni arbedion ariannol, ac mae polisi'r Cyngor a chanlyniadau'r gwasanaeth yn llai o bwyslais. Bu llinell weledigaeth eglur annigonol, er enghraifft trwy Flaenraglenni Gwaith y Cabinet, i hwyluso gwaith craffu priodol a phrydlon. Pan gynhaliwyd ein hasesiad roedd y berthynas rhwng y Cabinet ar y pryd a'r swyddogaeth Graffu yn anodd, ac ni chafodd argymhellion craffu eu gwerthfawrogi bob tro ac ni wnaeth y Cabinet ar y pryd ymateb iddynt yn briodol. Arweiniodd cyfarfodydd y Cabinet y gwnaethom ni arsylwi arnynt ym mis Tachwedd 2016 at ddiffyg eglurdeb, a thryloywder o ganlyniad i hynny o ran gwneud penderfyniadau. Nid oedd yn glir i ni bryd hynny fod swyddogion allweddol yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd priodol i aelodau o dan yr amgylchiadau. O ran rhai o'r newidiadau allweddol i wasanaethau y gwnaethom eu harolygu, roedd ansawdd yr arfarniad o opsiynau yn gymysg, yn ogystal â'r trefniadau i ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau arfaethedig hynny. Ar y cyfan, des i i'r casgliad bod gwendidau o ran digonoldeb ac amseroldeb yr wybodaeth sydd ar gael i aelodau am swyddogaethau craffu a gwneud penderfyniadau y Cyngor.

O ran defnyddio adnoddau, fe wnes i:

- argymell y dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol trwy sicrhau bod yr holl gynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol, gan ragfynegi'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn ystod cyfnod y cynllun ariannol tymor canolig; a thrwy sicrhau y gellir cyflawni targedau arbedion gwasanaethau a bennir ar gyfer gwariant gan drydydd partïon, incwm a chyfleoedd gwella costau, a hynny o fewn yr amserlenni a gynllunnir; ac
- adrodd yr angen i'r Cyngor wella cyflymder a graddau'r newid trwy weithredu'r 'Polisi Trefniadaeth Ysgolion, Cynllunio Darpariaeth Addysg', er mwyn cyflawni gwasanaeth addysg fforddiadwy a chynaliadwy.

Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad beirniadol ynghylch darpariaeth Gwasanaethau Plant yn y Cyngor. Mae Bwrdd Gwasanaethau Plant a gaiff ei gadeirio'n annibynnol ar waith ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun gwella mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae costau'r cynllun gwella hwn yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd. Mae rhywfaint o'r adnoddau sydd eu hangen wedi'u neilltuo ond os bydd y gofynion sy'n effeithio ar y flwyddyn ariannol bresennol yn fwy na'r swm a neilltuwyd, gallai hyn arwain at effaith sylweddol pellach ar y diffyg gweithredu a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018. Hefyd, mae'r Cyngor wedi drafftio Cynllun Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Cyngor wedi cysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaeth Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) yn gofyn am gymorth o dan adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. O ganlyniad i hyn, bydd pecyn ffurfiol o gymorth yn cael ei ddarparu.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod ei fod yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18, ac ym mis Tachwedd 2017 rhagwelodd y Cyngor ddiffyg gweithredu o £4.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018. Mae'r Cyngor wedi adrodd bod y diffyg gweithredol a ragwelir i raddau helaeth o ganlyniad i gyfuniad o gynlluniau arbedion nas cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn (a blynyddoedd blaenorol), ynghyd â gorwariant gan wasanaethau, a Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion yn bennaf.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn archwilio amrywiaeth o opsiynau i leihau lefel y diffyg a ragwelir ar 31 Mawrth 2018. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleihau'r gwariant a ragfynegir ar draws gwasanaethau trwy oedi neu beidio ag ysgwyddo gwariant nad yw'n hanfodol;
- defnyddio cyllidebau refeniw nad ydynt wedi'u hymrwymo'n fawr i gefnogi gweddnewid a newid; ac
- adolygu nifer o opsiynau cyfrifyddu technegol i gynhyrchu refeniw yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio cyfuniad o'r opsiynau uchod i leihau'r diffyg gweithredol a ragfynegir i sefyllfa wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018. Yn benodol, mae'n bwriadu defnyddio'r £4 miliwn o arbedion nad ydynt yn ailadrodd a gaiff eu rhyddhau trwy gynllunio i leihau cost y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Disgwylir y bydd sefyllfa'r Gronfa Gyffredinol yn aros ar £8.5 miliwn ar 31 Mawrth 2018. Yn ogystal â'r Gronfa Gyffredinol, mae gan y Cyngor ddwy gronfa wrth gefn benodol (Cronfa Rheoli'r Gyllideb £3.6 miliwn a'r Gronfa Gwasanaethau i Oedolion £2.0 miliwn) sydd wedi'u neilltuo i gefnogi pwysau ariannol a rhagwelir y bydd y cronfeydd penodol hyn gwerth rhyw £5.6 miliwn ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn 2018-19 a thu hwnt. Yn wreiddiol, nododd y Cyngor fod angen dod o hyd i werth £8.4 miliwn o arbedion yn ystod 2018-19, ond nodwyd gwerth £8.3 miliwn a £6.8 miliwn yn ychwanegol o bwysau costau blynyddol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn y drefn honno. Felly, bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion gwerth oddeutu £23 miliwn yn 2018-19.

Rydym ar ddeall bod cynlluniau ar waith i gyflawni cyllideb ariannol gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Fodd bynnag, mae sefyllfa gytbwys yn dibynnu i raddau helaeth ar:

- yr angen i gyflawni gwerth £8 miliwn o arbedion;
- rhyddhau £5 miliwn o arbedion nad ydynt yn ailadrodd trwy gynllunio i leihau cost y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw; a
- defnyddio'r gronfa benodol a neilltuwyd i gefnogi pwysau ariannol (Gofal

Cymdeithasol i Oedolion).

O gofio bod y Cyngor wedi cydnabod ei fod wedi'i chael yn anodd cyflawni ei lefel o arbedion a gynlluniwyd yn y gorffennol, mae hyn yn risg sylweddol i'r Cyngor. Mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn cyflawni'r cynlluniau arbedion hyn ac yn mabwysiadu dull mwy cadarn o reoli'r gyllideb i reoli a lliniaru'r potensial i orwario yn ystod y flwyddyn. Bydd angen i'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu chwarae rhan allweddol mewn monitro cyflawniad cynlluniau arbedion.

Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r pwysau ariannol a nodir yn 2018-19. Er bod cronfeydd wrth gefn yn darparu clustog dros dro yn erbyn pwysau ariannol, ni ddylid eu hystyried yn ateb tymor canolig neu hirdymor cynaliadwy. Yn hyn o beth, bydd angen monitro Cronfa Gyffredinol y Cyngor (ac unrhyw gronfeydd eraill a ddefnyddir i gefnogi'r sefyllfa ariannol) yn ofalus er mwyn sicrhau y cânt eu cynnal ar lefelau priodol.

Mae pwysau ariannol yn parhau yn 2019-20 wrth i'r Cyngor ragfynegi y bydd angen cyflawni gwerth £17 miliwn o arbedion.

O gofio maint yr her ariannol yn y dyfodol, mae angen i'r Cyngor ddefnyddio dull strategol a gweddnewidiol o ddarparu ei wasanaethau oherwydd ni all ffforddio parhau i ddarparu ei wasanaethau ar eu ffurf bresennol. Yn hyn o beth, mae angen i'r Cyngor adolygu a diweddaru ei strategaeth ariannol tymor canolig er mwyn ei alluogi i fyw o fewn ei fodd wrth symud ymlaen.

### Rwyf wedi penderfynu gwneud Argymhelliad Statudol i'r Cyngor o dan adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Ar ôl ystyried yn ofalus y gwelliannau sydd eu hangen i drefniadau llywodraethu y Cyngor a'r heriau ariannol a nodir uchod, rwyf wedi penderfynu gwneud Argymhelliad yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf).

**Wrth bennu cyllideb gytbwys, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl gynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol. Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i ddiweddaru ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd wrth fynd ymlaen, a llunio a gweithredu camau i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac a adroddwyd i mi o ran ei drefniadau corfforaethol ac ariannol.**

Yn unol ag adrannau 25 a 26 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried fy Argymhelliad mewn cyfarfod o fewn mis i ddyddiad y llythyr hwn.

Yn benodol, yn unol ag adran 26(5) o'r Ddeddf, dylai'r cyfarfod hwnnw

benderfynu:

1. a oes angen i’r Cyngor gymryd unrhyw gamau o safbwynt yr adroddiad;
2. a ddylid derbyn yr Argymhelliad a wnaed; a
3. a oes angen cymryd camau mewn ymateb i’r Argymhelliad, ac os oes, pa rai.

Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y cyfarfod, dylwn i gael gwybod am benderfyniadau’r Cyngor a chael crynodeb o’r penderfyniadau, a phan fyddaf i wedi’u cymeradwyo, bydd yn rhaid eu cyhoeddi mewn papur newydd lleol sy’n gwasanaethu ardal y Cyngor, yn amodol ar yr eithriadau o ran materion cyfrinachol a nodir yn adran 26(5) o’r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol i’r Cyngor gyhoeddi’r argymhelliad a’i benderfyniadau mewn cysylltiad ag ef.

Yn gywir



**Anthony Barrett**

**Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3 – Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 2017-18

## Arddangosyn 3: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2017 | Cynllunio Arbedion mewn Cynghorau yng Nghymru | Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella, ond roedd cynigion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau lleol a gyflwynwyd i bob Cyngor. |
| Hydref 2017 | Caffael Cyhoeddus yng Nghymru | Roedd yr adroddiad yn cynnwys saith argymhelliad. Roedd chwech o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac un o'r argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus:<br>A3 Roedd yn glir o'n gwaith samplu bod rhai o'r strategaethau caffael wedi dyddio, a bu ymateb cymysg hefyd i bolisïau a deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu strategaethau a'u polisïau caffael yn ystod 2017-18 ac yn flynyddol wedi hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisïau a deddfwriaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus. |
| Hydref 2017 | Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau – Crynodeb Cenedlaethol | Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella, ond roedd cynigion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau lleol a gyflwynwyd i bob Cyngor. Prif ddiben yr adroddiad oedd rhoi dealltwriaeth, rhannu ymarfer presennol ac ysgogi sgyrsiau a thrafodaethau yn y dyfodol rhwng cynghorau a sefydliadau eraill. |
| Rhagfyr 2017 | Adroddiadau Ariannol Llywodraethau Lleol ar gyfer 2016-17 | Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2018 | Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd | **A1** Mae gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd a lleihau'r galw. Mae'r rhain yn wahanol iawn i wasanaethau digartrefedd a arweinir gan waith achos traddodiadol, ac mae gwaith atal yn gofyn am sgiliau newydd a rhyngweithio'n gynnar â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr. Gwelsom fod cynnydd awdurdodau lleol wrth ddiwygio ac atgyfnerthu gwasanaethau yn amrywiol (paragraffau 1.12 i 1.20). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol**:<br>• sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac<br>• adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.<br>**A2** Darparodd Llywodraeth Cymru arian i helpu awdurdodau lleol i weithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r cyllid hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau atal newydd gael eu datblygu. Mae'r arian ar gael tan 2019-20 ond mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan yr adnoddau hyn i ddiwygio eu gwasanaethau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y dyfodol (paragraffau 1.21 i 1.28). **Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn diwygio'r ffordd yr ariennir gwasanaethau digartrefedd ganddynt er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r dull atal ehangaf posibl sydd ei angen. Dylai adolygiadau ystyried defnyddio arian Cefnogi Pobl yn ogystal ag arian o Gronfa Gyffredinol y Cyngor i gefnogi'r ffordd y cyflawnir dyletswyddau digartrefedd yr awdurdod.**<br>**A3** Gall y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u rheoli ar y pwynt cyswllt cyntaf ddylanwadu'n sylweddol ar ba mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth reoli a lleihau'r galw. Gall gwasanaethau y mae'n hawdd cael gafael arnynt a ddefnyddir i'r eithaf, sy'n osgoi dull porthgadw ac sy'n canolbwyntio ar atebion cynnar, wella'r rhagolygon ar gyfer atal digartrefedd yn llwyddiannus. Gwelsom fod systemau pwynt mynediad rhai awdurdodau wedi'u cynllunio'n wael, sy'n effeithio'n andwyol ar ragolygon yr awdurdod ar gyfer ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd rhag digwydd (paragraffau 2.4 i 2.11). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol**:<br>• llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;<br>• defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a<br>• phrofi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2018 | Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd | **A4** Mae pennu safonau gwasanaeth clir sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ddarparu ac y mae'n gyfrifol amdano yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth sydd angen iddynt ei ddatrys eu hunain. Gwelsom nad yw awdurdodau bob amser yn rhoi gwybodaeth glir, cryno ac o ansawdd da er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyngor cywir yn gyflym ac yn effeithlon (paragraffau 2.12 i 2.17). **Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:**<br>• gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml;<br>• bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys;<br>• nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym;<br>• cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au);<br>• integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol;<br>• cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod; a<br>• nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.<br><br>**A5** Mae angen i awdurdodau lleol lunio gwasanaethau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, ond mae'r safonau cyfredol yn rhy amrywiol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt (paragraffau 2.18 i 2.24). **Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:**<br>• profi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;<br>• cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a<br>• chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparwyr arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2018 | Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd | **A6** Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar wasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweitho â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Gwelsom nad yw'r trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol ac nad yw ymatebion gwasanaethau i atal digartrefedd a helpu pobl ddigartref bob amser yn cael eu darparu, ac nad ydynt ychwaith yn gyson effeithiol (paragraffau 3.13 i 3.25). **Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella**.<br><br>**A7** Nid yw systemau monitro awdurdodau lleol na dulliau gwerthuso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithio cystal â'r disgwyl (paragraffau 3.35 i 3.39). **Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddoldebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.**<br><br>**A8** MGall rheoli'r galw fod yn heriol i awdurdodau lleol. Mae rhai gwersi clir i'w dysgu o ran gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau atal digartrefedd y gellir eu cymhwyso at reoli'r galw mewn gwasanaethau eraill (paragraffau 4.24 i 4.27). **Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio a nodir yn Atodiad 10 i gynnal hunanasesiad ar wasanaethau, er mwyn helpu i nodi opsiynau i wella'r ffordd y gallant helpu i reoli'r galw.** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Chwefror 2018 | Addasiadau Tai | Roedd yr adroddiad yn cynnwys naw argymhelliad. Roedd un o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru ac roedd wyth ohonynt i awdurdodau lleol a/neu sefydliadau cyflenwi:<br>**A1** Ceir llawer o ffynonellau cyllid a pholisïau ar gyfer addasiadau, ac mae hynny'n golygu bod safon y gwasanaeth a dderbynnir gan bobl anabl a phobl hŷn yn amrywio'n helaeth (paragraffau 1.5 i 1.9). I fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru osod safonau ar gyfer pob addasiad er mwyn sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaeth o'r un safon waeth pa le y maent yn byw, pwy yw eu landlord, a ph'un a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio**.<br>**A2** Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn glir ynghylch sut y gall eu gwaith ar addasiadau gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl a phobl hŷn, ac maent wedi gosod nodau addas sy'n creu ffocws wrth weithredu. Mae sefydlu'r nodau strategol cywir ar gyfer addasiadau hefyd yn creu sail glir ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael blaenoriaeth gan wasanaethau, a sut ac ymhle y dylid defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, gwelsom fod amryw o ddiffygion yn y trefniadau polisi cyfredol, ac nad yw cyrff cyhoeddus yn sicrhau'r budd mwyaf wrth fuddsoddi (paragraffau 3.8 i 3.15). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy**:<br>• osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;<br>• gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy defnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a<br>• chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Chwefror 2018 | Addasiadau Tai | **A3** Mae'n bwysig sicrhau bod gan bawb y gallai fod angen gwaith addasu arnynt r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud cais am waith addasu a threfnu bod y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau. Gan hynny, mae'n hanfodol cael gwybodaeth hygyrch o ansawdd da er mwyn i sefydliadau cyflenwi arddangos mynediad teg a thryloywder. Fodd bynnag, cawsom hyd i wendidau yn ansawdd a darpariaeth gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch addasiadau tai (paragraffau 2.6 i 2.15). **Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddelfrydol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt**.<br>**A4** Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). **Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein**.<br>**A5** Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, **argymhellwn y canlynol**:<br>• bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad i weld a ddylai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs);<br>• bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;<br>• bod sefydladau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;<br>• bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach; a<br>• bod Llywodraeth Cymru'n symleiddio ei phrosesau cymeradwyo ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAGs). |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Chwefror 2018</td><td>Addasiadau Tai</td><td>A6 Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau i benodi, goruchwylio a rheoli perfformiad adeiladwyr ac/neu gontractwyr. Fodd bynnag, gwelsom amrywiaeth eang yn y modd y mae sefydliadau cyflenwi’n trefnu gwaith adeiladu, yn ei roi ar gontract ac yn ei gwblhau (paragraffau 2.37 i 2.44). Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:<br>• yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai’r rhain gynnwys:<br>– safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw’r safle’n daclus, rheoli sŵn ac ati;<br>– archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;<br>– hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;<br>– gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;<br>– sicrhau y delir yswiriant digonol; a<br>– gofyn am eirdaon.<br>• defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;<br>• mynd i’r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddaru’r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;<br>• datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:<br>– bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;<br>– gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a<br>– rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy’n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â’r gyllideb.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Chwefror 2018</td><td>Addasiadau Tai</td><td> A7 Er mwyn sicrhau cymaint â phosib o effaith a gwerth am arian wrth ddarparu addasiadau, mae angen i sefydliadau tai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio’n effeithiol i sicrhau bod modd bodloni anghenion pobl sydd yn aml yn fregus iawn, a gwella eu hansawdd byw. Fodd bynnag, yn ôl ein canfyddiadau mae’r diffyg ffocws strategol ar addasiadau mewn sefydliadau cyflenwi yn parhau, gyda’r sefydliadau hynny’n canolbwyntio ar ymatebion penodol o fewn y sefydliad, yn hytrach nag ystyried sut i gydweithio ag eraill i fodloni anghenion pobl anabl neu bobl hŷn orau (paragraffau 3.16 i 3.21). Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella’r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a’r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.
A8 Mae’r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth addasiadau o ran lleihau’r risg o godymau, atal derbyniadau i’r ysbyty a chyflymu’r broses o ryddhau cleifion o’r ysbyty. Fodd bynnag, ni fydd trefniadau partneriaeth lleol bob amser yn adlewyrchu pwysigrwydd addasiadau, ac ar wahân i Therapyddion Galwedigaethol, nododd gweithwyr iechyd proffesiynol ei bod hi’n anodd ymdrin â’r gwahanol systemau’r awdurdod lleol a’r cymdeithasau tai ar gyfer gweinyddu, cymeradwyo a chwblhau addasiadau (paragraffau 3.22 i 3.24). Er mwyn gwella’r defnydd a’r nifer sy’n manteisio ar addasiadau gyda chyrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi’r cyd-safonau hynny. Dylid nodi’n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i’w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
<ul>
<li>fod mewn iaith hygyrch sy’n hawdd ei deall;</li>
<li>bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;</li>
<li>cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;</li>
<li>nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a</li>
<li>chynnig yr opsiynau posib a’r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi’u haddasu.</li>
</ul></td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Chwefror 2018 | Addasiadau Tai | A9 Mae'n bwysig cael y dangosyddion perfformiad cywir ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny er mwyn i gyrff cyhoeddus reoli perfformiad gweithredol, canfod meysydd i'w gwella a gwerthuso effaith gadarnhaol gwasanaethau. Gwelsom fod ystod gyfredol y data o ddangosyddion perfformiad yn gyfyngedig iawn, ac nad ydynt yn ddigonol i'w gwneud hi'n bosib i gynnal gwerthusiad llawn o berfformiad (paragraffau 4.5 i 4.20). **Er mwyn rheoli perfformiad yn effeithiol a barnu ynghylch effaith addasiadau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyflenwi**:<br>• sefydlu mesuriadau priodol er mwyn barnu ynghylch effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwahanol systemau ar gyfer cyflenwi addasiadau a'r effaith ar lesiant ac annibyniaeth y rhai sy'n derbyn addasiadau;<br>• sicrhau bod sefydliadau cyflenwi yn adrodd yn erbyn eu cyfrifoldebau o ran Deddf Cydraddoldeb 2010;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl sefydliadau cyflenwi - awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio; a<br>• chyhoeddi perfformiad yr holl sefydliadau cyflenwi yn flynyddol fel bo modd cael golwg systemau cyfan ar ddarpariaeth ac effaith er mwyn cefnogi gwelliannau sydd i'w cyflawni. |
| Ebrill 2018 | Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus | **Sicrhau bod pobl sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu yn gallu cyrchu gwasanaethau cyhoeddus**<br>**A1** Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.<br>**Datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu yng Nghymru**<br>**A2** Drwy ein gwaith gyda chyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaeth dehongli a chyfieithu a defnyddwyr gwasanaeth, nodwyd bod sawl her o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus, grwpiau cynrychioliadol a phartïon eraill â buddiant i sicrhau:<br>• bod digon o ddehonglwyr ar gael, yn enwedig ar gyfer ieithoedd y ceir galw mawr amdanynt, fel Iaith Arwyddion Prydain ac Arabeg;<br>• bod dehonglwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar gael i weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl, a chyda phobl sydd wedi profi trawma neu drais; a<br>• bod gweithdrefnau ar waith i ddiogelu a sicrhau ansawdd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mai 2018 | Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella. |
| Mai 2018 | Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol | **A1** Mae gan bobl ag anabledd dysgu hawl i fyw'n annibynnol. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf bu newidiadau sylweddol o ran y ffordd y caiff llety a chymorth eu darparu. Mae gwasanaethau bellach yn cael eu darparu gan ddefnyddio model sy'n galluogi pobl i fyw yn y gymuned mewn tai cyffredin ledled Cymru (paragraffau 1.3 i 1.10). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:<br>• gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham;<br>• gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau;<br>• gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnerth a hunanddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd; a<br>• rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.<br>**A2** Dengys amcanestyniadau o'r boblogaeth y bydd nifer y bobl ag anabledd dysgu yn cynyddu yn y dyfodol ac y bydd nifer y bobl dros 65 oed a nifer y bobl ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn cynyddu'n sylweddol (paragraffau 1.3 i 1.10). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mai 2018 | Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol | **A3** Lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol, o'r enw 'developing a commissioning strategy for people with a learning disability', er mwyn helpu awdurdodau i lunio cynlluniau strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu. Ar y cyd â chodau ymarfer a ddatblygwyd yn sgil pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu opsiynau comisiynu integredig gyda gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol. Y nod yw darparu dull cydgysylltiedig a chosteffeithiol o gomisiynu gwasanaethau ond nododd ein hadolygiad wendidau yn y trefniadau presennol (paragraffau 2.4 i 2.12). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:<br>• deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;<br>• gwella ansawdd cydgynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);<br>• sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgynllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlflwydd; a<br>• datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.<br><br>**A4** Mae gweithgarwch ymgysylltu awdurdodau lleol â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn amrywio. Er bod gan lawer o wasanaethau awdurdodau gydberthnasau cadarnhaol â grwpiau eirioli, mae rhai yn llai llwyddiannus wrth gynnwys y grwpiau a'r gofalwyr hyn yn y broses o werthuso ansawdd gwasanaethau (paragraffau 2.18 i 2.20). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:<br>• cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;<br>• cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;<br>• cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a<br>• sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Mai 2018 | Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol | **A5** Gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys darparwyr gwasanaethau mewn gweithgarwch comisiynu a gwneud y broses dendro yn fwy effeithiol drwy sicrhau ei bod yn haws i'w defnyddio ac yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol mor effeithiol ag y dylent fod wrth ymgysylltu â darparwyr (paragraffau 2.28 i 2.38). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:<br>• gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a<br>• gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.<br><br>**A6** Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso'r ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu (paragraffau 3.3 i 3.15). Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol<br>• llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;<br>• sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;<br>• rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a'r dechnoleg briodol;<br>• integreiddio'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;<br>• gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a<br>• cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru